Arolygiaeth Prawf EF

# Safonau arolygu'r Gwasanaeth Prawf

Arolygiaeth Prawf EF, Hydref 2024

F1.3

# Cynnwys

**Parth un – Trefniadau a gweithgarwch sefydliadol** ........ 3
**Parth dau – Darparu gwasanaethau** ........ 6
Amddiffyn y cyhoedd ........ 6
Ymataliad ........ 7
Gwaith llys ........ 8
Gwaith di-dâl ........ 8
Ailsefydlu ........ 9
Gwaith statudol gyda dioddefwyr ........ 10
**Safonau Uned Gyflawni Prawf (PDU)** ........ 11
**Parth un – Trefniadau a gweithgarwch sefydliadol** ........ 11
P 1.1 Arweinyddiaeth ........ 11
P 1.2 Staffio ........ 12
P 1.3 Gwasanaethau ........ 13
**Parth dau – Darparu Gwasanaethau** ........ 14
P 2.1 Asesu ........ 14
P 2.2 Cynllunio ........ 15
P 2.3 Gweithredu a darparu ........ 16
P 2.4 Adolygu ........ 17

# Safonau rhanbarthol

## Parth un – Trefniadau a gweithgarwch sefydliadol

| **R 1.1 Arweinyddiaeth** |
|---|
| **Mae arweinyddiaeth ranbarthol yn ysgogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth ymatebol, personol o safon uchel i bawb sydd ar brawf.** |

***R 1.1.1 A yw'r weledigaeth a'r strategaeth ranbarthol yn ysgogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn effeithiol i bawb sydd ar brawf?***

a) A yw'r weledigaeth a'r strategaeth ranbarthol yn nodi sut y bydd gwasanaethau a goruchwyliaeth o ansawdd uchel i bobl ar brawf yn cael eu darparu?

b) A yw'r weledigaeth a'r strategaeth ranbarthol yn mynd ati'n fwriadol i ymdrin ag anghenion amrywiol ac yn nodi sut y bydd y rhain yn cael eu diwallu?

c) A yw'r weledigaeth a'r strategaeth ranbarthol yn nodi cynllun clir ar gyfer comisiynu?

d) A oes trefniadau llywodraethu effeithiol a chynlluniau cyflawni rhanbarthol clir sy'n trosi'r weledigaeth a'r strategaeth yn ymarfer?

e) A yw'r weledigaeth a'r strategaeth ranbarthol yn seiliedig ar ddadansoddiad cynhwysfawr o risg, anghenion a chryfderau?

f) A yw'r weledigaeth ranbarthol a'r strategaeth yn seiliedig ar dystiolaeth?

***R 1.1.2 A yw'r arweinyddiaeth ranbarthol yn ysgogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn effeithiol i bawb sydd ar brawf?***

a) A yw'r trefniadau rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i bobl ar brawf?

b) A yw gwasanaethau o ansawdd uchel ar gael i bawb sydd ar brawf yn y rhanbarth hwn?

c) A yw arweinwyr rhanbarthol yn deall ac yn ysgogi gwelliant yn ansawdd y gwaith ar draws y rhanbarth?

d) Wrth wneud newidiadau i systemau, prosesau, neu staffio, a yw'r effaith ar ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys effaith ar gydraddoldeb, yn cael ei hasesu, a chamau priodol yn cael eu cymryd?

e) A yw arweinwyr rhanbarthol yn cydweithio'n ddigonol â phartneriaid a rhanddeiliaid i sicrhau bod y weledigaeth a'r strategaeth yn cael eu cyflawni'n effeithiol?

f) A yw'r arweinyddiaeth ranbarthol yn mabwysiadu dull bwriadol, strategol a gwybodus o ddiwallu anghenion amrywiol?

g) A ydynt yn deall y risgiau o ran darparu gwasanaethau'n ddigonol, gyda mesurau lliniaru a rheolaethau priodol ar waith?

***R 1.1.3 A yw arweinwyr rhanbarthol yn ymgysylltu'n weithredol â staff, i ysgogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn effeithiol i bawb sydd ar brawf?***

a) A yw'r staff yn y rhanbarth yn ymroddedig, yn llawn cymhelliant ac yn falch o weithio i'r Gwasanaeth Prawf?

b) Ydy diwylliant y rhanbarth yn hyrwyddo bod yn agored, herio’n adeiladol a chynnig syniadau?

c) A yw arweinwyr rhanbarthol yn darparu cyfleoedd am ddyrchafiad yn deg, ac yn cydnabod ac yn gwobrwyo gwaith eithriadol?

d) A yw arweinwyr rhanbarthol yn sicrhau addasiadau rhesymol ar gyfer staff, yn unol â gofynion statudol a nodweddion gwarchodedig?

e) A oes llwybrau clir o gwynion, gyda chefnogaeth i staff os ydynt yn teimlo bod rhywun yn gwahaniaethu yn eu herbyn?

***R 1.1.4 A yw arweinwyr rhanbarthol yn defnyddio dadansoddiad, tystiolaeth a dysgu i ysgogi’r gwaith o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn effeithiol i bawb sydd ar brawf?***

a) Ydy barn pobl ar brawf a rhanddeiliaid allweddol eraill yn cael ei cheisio, ei dadansoddi a’i defnyddio i adolygu a gwella effeithiolrwydd y gwasanaethau prawf?

b) Ydy barn pobl ar brawf a rhanddeiliaid allweddol eraill yn cael ei cheisio, ei dadansoddi a’i defnyddio i adolygu a gwella effeithiolrwydd y gwasanaethau a gomisiynir?

c) A yw arweinwyr rhanbarthol yn deall ac yn defnyddio gwybodaeth am amrywiaeth i ysgogi gwelliant?

d) A yw gwasanaethau'n cael eu gwella drwy werthuso a datblygu’r sylfaen dystiolaeth sylfaenol?

e) A yw’r rhanbarth yn dysgu’n systematig o bethau sy’n mynd o chwith, gan gynnwys Troseddau Difrifol Pellach?

f) Lle bo angen, a yw camau’n cael eu cymryd yn brydlon ac yn briodol mewn ymateb i fonitro perfformiad, archwiliad, neu arolygiad?

| **R 1.2 Staffio** |
|---|
| **Galluogir staff i ddarparu gwasanaeth ymatebol, personol o ansawdd uchel i bawb sydd ar brawf.** |

***R 1.2.1 A yw trefniadau ar gyfer staffio rhanbarthol yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i bawb sydd ar brawf?***

a) A yw’r lefelau staffio rhanbarthol yn ddigonol?

b) A ellir rheoli llwythi gwaith staff rhanbarthol?

c) A yw potensial staff rhanbarthol yn cael ei ddatblygu?

d) A ddarperir digon o fynediad at hyfforddiant ar gyfer staff rhanbarthol?

e) A yw diwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus yn cael ei hyrwyddo’n weithredol ar draws y rhanbarth?

f) A yw’r staff yn derbyn goruchwyliaeth effeithiol i wella a chynnal ansawdd y gwaith gyda phobl sydd ar brawf?

g) A yw perfformiad staff rhanbarthol gwael yn cael ei nodi ac yn cael sylw?

h) A yw trefniadau goruchwylio’r rheolwyr yn effeithiol?

***R 1.2.2 A yw trefniadau ar gyfer staffio'r Uned Gyflawni Prawf yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i bawb sydd ar brawf?***

Mae sgoriau cyfun ar gyfer safon P 1.2 o bob un o arolygiadau Uned Gyflawni Prawf y rhanbarth yn cynhyrchu sgôr ar gyfer cwestiwn allweddol R 1.2.2 sy'n cael ei gyfuno â'r dystiolaeth ar gyfer R 1.2.1. Mae'r Rheolau a'r Canllawiau'n rhoi manylion llawn.

# Parth dau – Darparu gwasanaethau

| Amddiffyn y cyhoedd |
|---|
| **R 2.1 Mae gwasanaethau ymatebol, personol ac o ansawdd uchel yn cael eu darparu i amddiffyn y cyhoedd.** |

***R 2.1.1 A yw’r gwaith asesu yn canolbwyntio’n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?***

a) A yw’r gwaith asesu yn nodi ac yn dadansoddi’n glir unrhyw risg o niwed i eraill?

b) A yw'r gwaith asesu yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys ymddygiad ac euogfarnau blaenorol, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo’n briodol?

c) A yw’r gwaith asesu yn dadansoddi unrhyw risgiau a phryderon penodol sy’n gysylltiedig â dioddefwyr gwirioneddol a phosib?

***R 2.1.2 A yw’r gwaith cynllunio’n canolbwyntio’n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?***

a) A yw’r gwaith cynllunio’n mynd i'r afael â ffactorau risg o niwed yn ddigonol ac yn blaenoriaethu’r rhai sydd fwyaf hanfodol?

b) A yw’r gwaith cynllunio’n nodi’r ymyriadau adeiladol a/neu gyfyngol angenrheidiol i reoli’r risg o niwed?

c) A yw’r gwaith cynllunio’n gwneud cysylltiadau priodol â gwaith asiantaethau eraill sy’n ymwneud â’r sawl sydd ar brawf ac unrhyw gynlluniau aml-asiantaeth?

d) A yw’r gwaith cynllunio’n nodi’r trefniadau wrth gefn angenrheidiol ac effeithiol i reoli’r risgiau hynny sydd wedi’u nodi?

***R 2.1.3 A yw gweithredu a darparu gwasanaethau'n cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?***

a) A yw lefel a natur y cyswllt a gynigir yn ddigon i reoli a lleihau’r risg o niwed?

b) A roddir digon o sylw i amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl?

c) A yw cyfranogiad asiantaethau eraill o ran rheoli a lleihau’r risg o niwed wedi’i gyd-drefnu’n ddigonol?

d) A yw unigolion allweddol ym mywyd y sawl sydd ar brawf yn ymgysylltu lle bo hynny’n briodol i gefnogi’r gwaith o reoli’r risg o niwed yn effeithiol?

e) A gynhelir ymweliadau cartref lle bo angen i gefnogi’r gwaith o reoli’r risg o niwed yn effeithiol?

***R 2.1.4 A yw’r gwaith adolygu’n canolbwyntio’n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?***

a) A yw’r gwaith adolygu’n nodi ac yn mynd i'r afael â newidiadau mewn ffactorau cysylltiedig â’r risg o niwed, gyda’r addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i’r cynllun gwaith parhaus?

b) A yw’r gwaith adolygu’n cael ei oleuo gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy’n ymwneud â rheoli’r risg o niwed?

c) A yw'r sawl sydd ar brawf (a, lle bo hynny'n briodol, a yw unigolion allweddol yn ei fywyd) yn ymwneud yn ystyrlon ag adolygu'r risg o niwed?

A yw adolygiadau ysgrifenedig yn cael eu cwblhau fel y bo'n briodol fel cofnod ffurfiol o reoli'r risg o niwed?

| **Ymataliad** |
|---|
| **R 2.2 Mae gwasanaethau ymatebol, personol ac o ansawdd uchel yn cael eu darparu i hyrwyddo ymataliad.** |

***R 2.2.1 A yw'r gwaith asesu yn canolbwyntio'n ddigonol ar y ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu ac ymatal rhag troseddu?***

a) A yw'r gwaith asesu yn nodi ac yn dadansoddi ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu?

b) A yw'r gwaith asesu yn nodi cryfderau a ffactorau amddiffynnol y sawl sydd ar brawf?

c) A yw'r gwaith asesu yn defnyddio digon ar y ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael?

***R 2.2.2 A yw'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar leihau aildroseddu a chefnogi ymataliad?***

a) A yw'r gwaith cynllunio'n adlewyrchu ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu yn ddigonol ac yn blaenoriaethu'r rhai sydd fwyaf hanfodol?

b) A yw'r gwaith cynllunio'n adeiladu ar gryfderau a ffactorau amddiffynnol yr unigolyn, gan ddefnyddio ffynonellau cymorth posibl?

c) A yw'r gwaith cynllunio'n nodi'r gwasanaethau sydd fwyaf tebygol o leihau aildroseddu a chefnogi ymataliad?

***R 2.2.3 A yw gweithredu a darparu gwasanaethau'n cefnogi ymataliad yn effeithiol?***

a) Ai'r gwasanaethau a ddarperir yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o leihau aildroseddu a chefnogi ymataliad, gan roi sylw digonol i ddilyniant a'r amserlenni sydd ar gael?

b) Lle bynnag y bo modd, a yw darparu gwasanaethau'n adeiladu ar gryfderau'r unigolyn ac yn gwella ffactorau amddiffynnol?

c) A yw'r gwaith o gynnwys sefydliadau eraill wrth ddarparu gwasanaethau wedi'i gyd-drefnu'n dda?

d) A yw unigolion allweddol ym mywyd y sawl sydd ar brawf yn ymgysylltu lle bo hynny'n briodol i gefnogi eu hymataliad?

e) A yw lefel a natur y cyswllt yn ddigon i leihau aildroseddu a chefnogi ymataliad?

f) A yw gwasanaethau lleol yn cael eu defnyddio i gefnogi a chynnal ymatal yn ystod y ddedfryd a thu hwnt?

***R 2.2.4 A yw'r gwaith adolygu yn canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad?***

a) A yw'r gwaith adolygu'n nodi ac yn mynd i'r afael â newidiadau mewn ffactorau cysylltiedig ag ymddygiad troseddol, gyda'r addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r cynllun gwaith parhaus?

b) A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar adeiladu ar gryfderau a gwella ffactorau amddiffynnol y sawl sydd ar brawf?

c) A yw'r gwaith adolygu'n cael ei oleuo gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda'r sawl sydd ar brawf?

d) A yw adolygiadau ysgrifenedig yn cael eu cwblhau fel sy'n briodol fel cofnod ffurfiol o gynnydd tuag at ymatal?

**Gwaith llys**

**R 2.3 Mae'r wybodaeth a'r cyngor cyn-dedfrydu a ddarperir i'r llys yn cefnogi ei broses o wneud penderfyniadau.**

***R 2.3.1 A yw'r cyngor a'r wybodaeth cyn dedfrydu a ddarperir i'r llys yn ddigon dadansoddol a phersonol i'r unigolyn, gan gefnogi proses gwneud penderfyniad y llys?***

a) A yw'r wybodaeth a'r cyngor yn defnyddio digon ar y ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth am ddiogelu plant a cham-drin domestig?

b) A yw'r unigolyn yn cael ei gynnwys yn ystyrlon yn y gwaith o baratoi'r adroddiad, ac a yw ei safbwyntiau'n cael eu hystyried?

c) A yw'r cyngor yn ystyried ffactorau sy'n gysylltiedig â'r tebygolrwydd o aildroseddu?

d) A yw'r cyngor yn ystyried ffactorau sy'n gysylltiedig â risg o niwed?

e) A yw'r cyngor yn ystyried cymhelliant yr unigolyn a'i barodrwydd i newid?

f) A yw'r cyngor yn ystyried amrywiaeth ac amgylchiadau personol yr unigolyn?

g) A yw'r cyngor yn ystyried effaith y drosedd ar ddioddefwyr hysbys neu y gellir eu hadnabod?

h) A wneir cynnig priodol i'r llys?

i) A oes cofnod digonol o'r cyngor a roddwyd, a'r rhesymau drosto?

**Gwaith di-dâl**

**R 2.4 Mae gwaith di-dâl yn cael ei gyflawni'n ddiogel ac yn effeithiol, gan ymgysylltu â'r sawl sydd ar brawf yn unol â disgwyliadau'r llys.**

***R 2.4.1 A yw asesu a chynllunio gwaith di-dâl yn bersonol?***

a) A yw asesu a chynllunio yn ystyried amrywiaeth, nodweddion gwarchodedig ac amgylchiadau personol yr unigolyn, a'r effaith y mae'r rhain yn ei chael ar ei allu i gydymffurfio ac ymgysylltu â gwaith di-dâl?

b) A yw asesu a chynllunio ar gyfer gwaith di-dâl yn nodi ac yn adeiladu ar gryfderau'r unigolyn ac yn gwella ei ffactorau amddiffynnol?

c) A yw asesu a chynllunio ar gyfer gwaith di-dâl yn nodi ac yn mynd i'r afael â ffactorau sy'n gysylltiedig â'r risg o niwed?

***R 2.4.2 A yw'r trefniadau ar gyfer gwaith di-dâl yn gwneud y gorau o elfennau ailsefydlu ac yn cefnogi ymataliad?***

a) A yw'r gwaith a ddyrannwyd yn addas, gan ystyried amrywiaeth ac amgylchiadau personol yr unigolyn?

b) A yw gwaith di-dâl yn cynnig cyfleoedd ar gyfer addysg, hyfforddiant a datblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth?

c) A roddir gwybodaeth glir i'r sawl sydd ar brawf er mwyn gallu cydymffurfio?

***R 2.4.3 A yw gwaith di-dâl yn cael ei gyflawni'n ddiogel?***

a) A yw darparu gwaith di-dâl yn ystyried y risg o niwed i bobl eraill sydd ar brawf, y staff neu'r cyhoedd?

b) A yw gwaith di-dâl yn ystyried materion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch neu'r posibilrwydd bod y sawl sydd ar brawf yn agored i niwed?

***R 2.4.4 Ydy dedfryd y llys yn cael ei gweithredu'n briodol?***

a) A yw gwaith di-dâl yn dechrau'n brydlon ac yn digwydd yn rheolaidd?

b) A yw'r trefniadau ar gyfer gwaith di-dâl yn annog yr unigolyn i ymgysylltu a chydymffurfio â'r gorchymyn?

c) A roddir barn broffesiynol briodol ynglŷn â phenderfyniadau ynghylch methu apwyntiadau?

d) A yw camau gorfodi'n cael eu cymryd pan fo hynny'n briodol?

| **Ailsefydlu** |
|---|
| **R 2.5 Mae gwaith ailsefydlu'n amserol, yn bersonol ac wedi'i gyd-drefnu, gan fynd i'r afael ag anghenion ailsefydlu'r unigolyn a chefnogi'r gwaith o'i integreiddio i'r gymuned.** |

***R 2.5.1 A yw ailsefydlu'n amserol, yn bersonol ac wedi'i gyd-drefnu, ac a yw'n mynd i'r afael ag anghenion ailsefydlu allweddol ac yn cefnogi'r broses o integreiddio'r unigolyn yn y gymuned?***

a) A oedd rheolwr troseddwyr y carchar wedi trosglwyddo'n glir i'r rheolwr troseddwyr cymunedol ar adeg briodol cyn rhyddhau?

b) A oedd digon o rannu gwybodaeth rhwng staff yn y carchar a'r rheolwr troseddwyr cymunedol?

c) A wnaeth y rheolwr troseddwyr cymunedol sicrhau lefel gymesur o gyswllt gyda'r carcharor cyn ei ryddhau?

d) A wnaeth y rheolwr troseddwyr cymunedol nodi a rhoi sylw i'r prif anghenion ailsefydlu neu ymatal cyn rhyddhau?

e) A wnaeth y rheolwr troseddwyr cymunedol nodi a rhoi sylw i'r materion risg allweddol o niwed cyn rhyddhau?

f) A yw gwasanaethau ailsefydlu 'n cael eu darparu yn unol ag anghenion ailsefydlu'r unigolyn, gan flaenoriaethu'r rhai sydd fwyaf hanfodol?

g) A yw gweithgarwch ailsefydlu'n cael ei gyd-drefnu'n effeithiol gyda gwasanaethau eraill sy'n cael eu darparu yn y carchar?

h) A yw gwasanaethau ailsefydlu'n cefnogi trosglwyddo effeithiol i wasanaethau lleol yn y gymuned?

## Gwaith statudol gyda dioddefwyr

**R 2.6 Mae gwybodaeth berthnasol ac amserol yn cael ei rhoi i ddioddefwyr trosedd difrifol, a rhoddir cyfle iddynt gyfrannu eu barn ar adegau allweddol yn y ddedfryd.**

**R 2.6.1 A yw cyswllt cychwynnol â dioddefwyr yn annog ymgysylltu â'r cynllun cyswllt â dioddefwyr ac yn darparu gwybodaeth am ffynonellau cymorth?**

a) A wneir cyswllt cychwynnol priodol yn fuan ar ôl y ddedfryd, gan ystyried amseriad cyswllt o'r fath?

b) A yw'r llythyrau cychwynnol wedi'u personoli'n briodol, gan ystyried natur profiad dioddefwyr ac unrhyw faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth?

c) A roddir gwybodaeth glir i ddioddefwyr am yr hyn y gallant ei ddisgwyl ar wahanol adegau mewn dedfryd?

d) A yw'r llythyrau cychwynnol yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi dioddefwyr i wneud dewis gwybodus ynghylch a ydynt am gymryd rhan yn y cynllun ai peidio?

e) A yw dioddefwyr yn cael gwybod am y camau y gallant eu cymryd os bydd y carcharor/y sawl sydd ar brawf yn ceisio cysylltu'n ddiangen â nhw?

f) A yw dioddefwyr yn cael eu cyfeirio at asiantaethau neu wasanaethau eraill, neu'n cael gwybodaeth am y ffynonellau cymorth a chefnogaeth sydd ar gael?

***R 2.6.2 A oes cyfnewid gwybodaeth a chyfathrebu effeithiol i gefnogi diogelwch dioddefwyr?***

a) A yw staff cyswllt dioddefwyr yn ymwneud â Threfniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd lle bo hynny'n briodol?

b) A yw staff cyswllt dioddefwyr yn rhannu gwybodaeth berthnasol gyda'r ymarferydd prawf?

c) A roddir sylw i bryderon y dioddefwyr ac a roddir sylw i'w diogelwch wrth gynllunio ar gyfer rhyddhau?

d) A yw staff cyswllt â dioddefwyr yn cael gwybodaeth briodol ac amserol ynglŷn â rheoli'r sawl sydd ar brawf?

**R 2.6.3 A yw cyswllt â dioddefwyr cyn-rhyddhau yn caniatáu iddynt wneud cyfraniadau priodol i'r amodau rhyddhau?**

a) A yw dioddefwyr yn cael cyfle i gyfrannu eu barn i lywio penderfyniadau ynghylch rhyddhau'r carcharor/y sawl sydd ar brawf yn brydlon, ac yn cael cymorth i wneud hynny?

b) A yw sylwadau a fynegir gan ddioddefwyr yn cael eu trin yn briodol ac yn unol â'r cynllun cyswllt â dioddefwyr?

c) A yw dioddefwyr yn cael eu cefnogi wrth wneud datganiad personol y dioddefwr mewn ceisiadau parôl?

# Safonau Uned Gyflawni Prawf (PDU)

## Parth un – Trefniadau a gweithgarwch sefydliadol

| P 1.1 Arweinyddiaeth |
| --- |
| Mae arweinyddiaeth yr Uned Gyflawni Prawf yn golygu bod modd darparu gwasanaeth ymatebol, personol o safon uchel i bawb sydd ar brawf. |

***P 1.1.1 A yw gweledigaeth a strategaeth yr Uned Gyflawni Prawf yn ysgogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i bawb sydd ar brawf?***

a) A oes trefniadau llywodraethu effeithiol a threfniadau cyflawni lleol clir sy'n trosi'r weledigaeth a'r strategaeth yn ymarfer ar y rheng flaen?

b) A yw tîm arwain yr Uned Gyflawni Prawf yn cydweithio'n ddigonol â phartneriaid a rhanddeiliaid i sicrhau bod y weledigaeth a'r strategaeth yn cael eu cyflawni'n effeithiol?

c) A yw staff yr Uned Gyflawni Prawf yn deall trefniadau darparu'r Uned, sut dylid darparu'r gwasanaeth, a beth y maent yn atebol amdano?

d) A ydynt yn deall y risgiau o ran darparu gwasanaethau'r Uned Gyflawni Prawf yn ddigonol, gyda mesurau lliniaru a rheolaethau priodol ar waith?

***P 1.1.2 A yw'r tîm arwain yr Uned Gyflawni Prawf yn ysgogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i bawb sydd ar brawf?***

a) A yw arweinyddiaeth yr Uned Gyflawni Prawf yn mabwysiadu dull bwriadol, strategol a gwybodus o ddiwallu anghenion amrywiol?

b) A oes polisïau a chanllawiau clir ar waith ynghylch yr amrywiaeth lawn o wasanaethau a gomisiynir yn lleol, eu haddasrwydd ar gyfer pobl unigol sydd ar brawf, a phrosesau cyfeirio?

c) A yw'r staff perthnasol yn cyfathrebu ac yn deall y polisïau a'r canllawiau?

d) Wrth wneud newidiadau i systemau, prosesau, neu staffio, a yw'r effaith ar ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys effaith ar gydraddoldeb, yn cael ei hasesu, a chamau priodol yn cael eu cymryd?

***P 1.1.3 A yw arweinwyr yr Uned Gyflawni Prawf yn ymgysylltu'n weithredol â staff, i gyflawni'r gwaith o ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn effeithiol i bawb sydd ar brawf?***

a) A yw diwylliant yr Uned Gyflawni Prawf yn hyrwyddo bod yn agored, herio'n adeiladol a chynnig syniadau?

b) A yw'r staff yn ymgysylltu'n dda ac yn llawn cymhelliant?

c) A roddir sylw priodol i ddiogelwch a llesiant staff, yn ogystal â meithrin cydnerthedd staff?

d) A yw arweinwyr yr Uned Gyflawni Prawf yn sicrhau addasiadau rhesymol ar gyfer staff, yn unol â gofynion statudol a nodweddion gwarchodedig?

e) A oes llwybrau clir o gwynion, gyda chefnogaeth i staff os ydynt yn teimlo bod rhywun yn gwahaniaethu yn eu herbyn?

***P 1.1.4 A yw arweinwyr yr Uned Gyflawni Prawf yn defnyddio dadansoddiad, tystiolaeth a dysgu i ysgogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn effeithiol i bawb sydd ar brawf?***

a) A yw arweinwyr yr Uned Gyflawni Prawf yn deall ac yn defnyddio gwybodaeth am amrywiaeth i ysgogi gwelliant?

b) A yw darpariaeth yr Uned Gyflawni Prawf yn rhoi digon o sylw i safbwyntiau pobl sydd ar brawf?

c) Lle bo angen, a yw camau'n cael eu cymryd yn brydlon ac yn briodol ynglŷn â monitro perfformiad, archwiliad, ac arolygiad?

d) A yw'r Uned Gyflawni Prawf yn dysgu'n systematig o bethau sy'n mynd o chwith, gan gynnwys Troseddau Difrifol Pellach?

e) A yw'r dysgu'n cael ei gyfathrebu'n effeithiol?

## P 1.2 Staffio

**Galluogir staff i ddarparu gwasanaeth ymatebol, personol o ansawdd uchel i bawb sydd ar brawf.**

***P 1.2.1 A yw lefelau staffio a llwyth gwaith yn cefnogi darpariaeth gwasanaeth o ansawdd uchel i bawb sydd ar brawf?***

a) A yw lefelau staffio'r Uned Gyflawni Prawf yn ddigonol?

b) A yw llwyth gwaith ymarferwyr yn hawdd ei reoli, o ystyried proffil yr achosion a'r amrywiaeth o waith a wneir?

c) A oes gan staff gweinyddol lwyth gwaith sy'n hawdd ei reoli?

d) A oes gan benaethiaid gwasanaeth ar gyfer yr Uned Gyflawni Prawf a rheolwyr canol lwyth gwaith sy'n hawdd ei reoli?

e) A yw llwythi gwaith yn cael eu rheoli'n weithredol, gydag adnoddau'n cael eu symud, pan fo hyn yn rhesymol ac yn angenrheidiol, mewn ymateb i bwysau lleol?

***P 1.2.2 A yw sgiliau a phroffil staff yn cefnogi darpariaeth gwasanaethau o ansawdd uchel i bawb sydd ar brawf?***

a) A yw'r gweithlu'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth leol yn ddigonol?

b) A yw amrywiaeth y gweithlu yn diwallu anghenion llwyth achosion?

c) A ddyrennir achosion i staff sydd â'r cymwysterau a/neu'r profiad priodol?

d) A yw potensial staff yn cael ei nodi a'i ddatblygu?

e) Lle defnyddir gwirfoddolwyr a mentoriaid, a ydynt yn cael eu cefnogi i gyflawni rolau sydd wedi'u diffinio'n glir?

***P 1.2.3 A yw goruchwylio gwaith yn cefnogi darpariaeth a datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel?***

a) A oes rhaglen gynefino effeithiol yn cael ei darparu i staff newydd sy'n rhoi sylw i faterion amrywiaeth ac sy'n hygyrch i bawb?

b) A yw'r staff yn derbyn goruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar achos effeithiol i wella a chynnal ansawdd y gwaith gyda phobl sydd ar brawf?

c) A oes trefniadau goruchwylio'r rheolwyr effeithiol i wella a chynnal ansawdd y gwaith gyda phobl sydd ar brawf?

d) A yw’r broses arfarnu’n cael ei defnyddio’n effeithiol i sicrhau bod staff yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel?

e) A yw anghenion dysgu’r staff yn cael eu nodi a’u diwallu?

f) A yw perfformiad staff gwael yn cael ei nodi ac yn cael sylw?

g) A yw diwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus yn cael ei hyrwyddo’n weithredol?

| **P 1.3 Gwasanaethau** |
| --- |
| **Mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau o ansawdd uchel ar gael, sy’n cefnogi gwasanaeth ymatebol ac wedi’i deilwra ar gyfer pawb sydd ar brawf.** |

***P 1.3.1 A yw gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion pobl sydd ar brawf?***

a) A oes ystod amrywiol a hyblyg o wasanaethau sy’n cwrdd â’r risg a’r anghenion a nodwyd ac yn adeiladu ar gryfderau?

b) A yw adeiladu cryfderau a gwella ffactorau amddiffynnol yn ganolog i ddarparu gwasanaethau?

c) A yw ffactorau amrywiaeth a materion anghymesuredd yn cael sylw digonol yn yr amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir?

d) A yw’r gwasanaethau’n cael eu darparu mewn lleoliadau priodol a hygyrch?

e) A yw’r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn cael ei lywio gan waith monitro, gwerthuso ac adolygu rheolaidd a chadarn sy’n seiliedig ar dystiolaeth?

***P 1.3.2 A yw’r amrywiaeth a’r nifer cywir o wasanaethau’n cael eu darparu i ddiwallu anghenion pobl sydd ar brawf?***

a) A yw nifer y gwasanaethau sydd ar gael yn ateb y galw yn gyson?

b) A oes llwybrau cyfeirio a mynediad clir sy’n cael eu deall yn dda ar gyfer gwasanaethau?

c) A yw gwasanaethau ar gael yn amserol i bobl sydd ar brawf?

d) A oes cydweithio effeithiol rhwng darparwyr gwasanaethau ac ymarferwyr prawf?

e) A yw’r llysoedd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaethau sydd ar gael, i gefnogi opsiynau dedfrydu?

# Parth dau – Darparu Gwasanaethau

Mae'r rhan fwyaf o achosion lle na chafodd cyswllt ei atal dros dro yn cael eu harchwilio yn erbyn ein safonau craidd. Nodir y rhain drwy'r fframwaith safonau gyda'r rhagddodiad 'PC' (PDU craidd). Mae'r rhan fwyaf o achosion lle mae cyswllt wedi'i atal dros dro yn cael eu harchwilio yn erbyn ein safonau sydd wedi'u haddasu, ac sydd wedi'u nodi gyda'r rhagddodiad 'PA' (wedi'u haddasu gan PDU).

Dyma'r achosion a fydd yn cael eu harchwilio o dan ein safonau sydd wedi'u haddasu gan PDU:

- pan mai dim ond o'r dyddiad rhyddhau y cafwyd goruchwyliaeth ar ôl dedfryd, neu
- roedd cyfnod trwydded ffurfiol o 13 wythnos neu lai o'r dyddiad rhyddhau.

## Safonau craidd ('PC')

| PC 2.1 Asesu |
|---|
| **Mae'r gwaith asesu yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y sawl sydd ar brawf.** |

***PC 2.1.1 A* yw'r gwaith asesu yn canolbwyntio'n ddigonol ar ymgysylltu â'r sawl sydd ar brawf?**

a) A yw'r gwaith asesu yn dadansoddi cymhelliant a pharodrwydd y sawl sydd ar brawf i ymgysylltu a chydymffurfio â'r ddedfryd?

b) A yw'r gwaith asesu yn dadansoddi nodweddion gwarchodedig yr unigolyn ac yn ystyried yr effaith a gaiff y rhain ar ei allu i gydymffurfio ac ymgysylltu â darpariaeth gwasanaethau?

c) A yw'r gwaith asesu yn dadansoddi amgylchiadau personol yr unigolyn, ac yn ystyried yr effaith y mae'r rhain yn ei chael ar ei allu i gydymffurfio ac ymgysylltu â gwasanaethau sy'n cael eu darparu?

d) A yw'r sawl sydd ar brawf yn cymryd rhan ystyrlon yn y gwaith asesu, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried?

***PC 2.1.2 A yw'r gwaith asesu yn canolbwyntio'n ddigonol ar y ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu ac ymatal rhag troseddu?***

a) A yw'r gwaith asesu yn nodi ac yn dadansoddi ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu?

b) A yw'r gwaith asesu yn nodi cryfderau a ffactorau amddiffynnol y sawl sydd ar brawf?

c) A yw'r gwaith asesu yn defnyddio digon ar y ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael?

***PC 2.1.3 A yw'r gwaith asesu yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?***

a) A yw'r gwaith asesu yn nodi ac yn dadansoddi'n glir unrhyw risg o niwed i eraill?

b) A yw'r gwaith asesu yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys ymddygiad ac euogfarnau blaenorol, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol?

c) A yw’r gwaith asesu yn dadansoddi unrhyw risgiau a phryderon penodol sy’n gysylltiedig â dioddefwyr gwirioneddol a phosib?

| **PC 2.2 Cynllunio** |
| --- |
| **Mae’r gwaith cynllunio'n seiliedig ar wybodaeth, yn gyfannol ac yn bersonol, ac mae’n cynnwys yn weithredol y sawl sydd ar brawf.** |

### *PC 2.2.1 A yw’r gwaith cynllunio'n canolbwyntio’n ddigonol ar ymgysylltu â’r sawl sydd ar brawf?*

a) A yw’r sawl sydd ar brawf yn cymryd rhan ystyrlon yn y gwaith cynllunio, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried?

b) A yw’r gwaith cynllunio’n rhoi digon o sylw i nodweddion gwarchodedig yr unigolyn a allai effeithio ar ymgysylltu a chydymffurfio?

c) A yw’r gwaith cynllunio’n rhoi digon o sylw i amgylchiadau personol yr unigolyn a allai effeithio ar ymgysylltu a chydymffurfio?

d) A yw’r gwaith cynllunio’n rhoi ystyriaeth ddigonol i barodrwydd a chymhelliant yr unigolyn sydd ar brawf i newid a allai effeithio ar ymgysylltu a chydymffurfio?

e) A yw’r gwaith cynllunio’n nodi sut bydd holl ofynion y ddedfryd neu’r drwydded/goruchwyliaeth ar ôl dedfryd yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlenni sydd ar gael?

f) A yw’r gwaith cynllunio’n pennu lefel, patrwm a math o gyswllt sy’n ddigonol i ymgysylltu â’r unigolyn ac i gefnogi effeithiolrwydd ymyriadau penodol?

### *PC 2.2.2 A yw’r gwaith cynllunio’n canolbwyntio’n ddigonol ar leihau aildroseddu a chefnogi ymataliad?*

a) A yw’r gwaith cynllunio’n adlewyrchu ffactorau sy’n gysylltiedig â throseddu yn ddigonol ac yn blaenoriaethu’r rhai sydd fwyaf hanfodol?

b) A yw’r gwaith cynllunio’n adeiladu ar gryfderau a ffactorau amddiffynnol yr unigolyn, gan ddefnyddio ffynonellau cymorth posibl?

c) A yw’r gwaith cynllunio’n nodi’r gwasanaethau sydd fwyaf tebygol o leihau aildroseddu a chefnogi ymataliad?

### *PC 2.2.3 A yw’r gwaith cynllunio’n canolbwyntio’n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?*

a) A yw’r gwaith cynllunio’n mynd i'r afael â ffactorau risg o niwed yn ddigonol ac yn blaenoriaethu’r rhai sydd fwyaf hanfodol?

b) A yw’r gwaith cynllunio’n nodi’r ymyriadau adeiladol a/neu gyfyngol angenrheidiol i reoli’r risg o niwed?

c) A yw’r gwaith cynllunio’n gwneud cysylltiadau priodol â gwaith asiantaethau eraill sy’n ymwneud â’r sawl sydd ar brawf ac unrhyw gynlluniau aml-asiantaeth?

d) A yw’r gwaith cynllunio’n nodi’r trefniadau wrth gefn angenrheidiol ac effeithiol i reoli’r risgiau hynny sydd wedi’u nodi?

## PC 2.3 Gweithredu a darparu

**Mae gwasanaethau cydlynol, personol o ansawdd uchel, gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r sawl sydd ar brawf.**

### *PC 2.3.1 A yw'r ddedfryd neu'r cyfnod ar ôl carchar yn cael ei weithredu'n effeithiol gan ganolbwyntio ar ymgysylltu â'r sawl sydd ar brawf?*

a) A yw gofynion y ddedfryd yn dechrau'n brydlon, neu ar adeg briodol?

b) A roddir digon o ffocws ar gynnal perthynas waith effeithiol â'r sawl sydd ar brawf, gan ystyried ei anghenion amrywiaeth?

c) A oes digon o ymdrechion yn cael eu gwneud i alluogi'r unigolyn i gwblhau ei ddedfryd, gan gynnwys hyblygrwydd i roi ystyriaeth briodol i'w amgylchiadau personol?

d) A yw risgiau o beidio â chydymffurfio yn cael eu nodi a'u datrys yn brydlon er mwyn lleihau'r angen am gamau gorfodi?

e) A yw camau gorfodi'n cael eu cymryd pan fo hynny'n briodol?

f) A oes digon o ymdrechion wedi'u gwneud i ail-ymgysylltu â'r unigolyn ar ôl camau gorfodi neu alw'n ôl?

### *PC 2.3.2 A yw'r gwaith o weithredu a darparu gwasanaethau'n cefnogi ymataliad yn effeithiol?*

a) Ai'r gwasanaethau a ddarperir yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o leihau aildroseddu a chefnogi ymataliad, gan roi sylw digonol i ddilyniant a'r amserlenni sydd ar gael?

b) Lle bynnag y bo modd, a yw darparu gwasanaethau'n adeiladu ar gryfderau'r unigolyn ac yn gwella ffactorau amddiffynnol?

c) A yw'r gwaith o gynnwys sefydliadau eraill wrth ddarparu gwasanaethau wedi'i gyd-drefnu'n dda?

d) A yw unigolion allweddol ym mywyd y sawl sydd ar brawf yn ymgysylltu lle bo hynny'n briodol i gefnogi eu hymataliad?

e) A yw lefel a natur y cyswllt yn ddigon i leihau aildroseddu a chefnogi ymataliad?

f) A yw gwasanaethau lleol yn cael eu defnyddio i gefnogi a chynnal ymatal yn ystod y ddedfryd a thu hwnt?

### *PC 2.3.3 A yw'r gwaith o weithredu a darparu gwasanaethau'n cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?*

a) A yw lefel a natur y cyswllt a gynigir yn ddigon i reoli a lleihau'r risg o niwed?

b) A roddir digon o sylw i amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl?

c) A yw cyfranogiad asiantaethau eraill o ran rheoli a lleihau'r risg o niwed wedi'i gyd-drefnu'n ddigonol?

d) A yw unigolion allweddol ym mywyd y sawl sydd ar brawf yn ymgysylltu lle bo hynny'n briodol i gefnogi'r gwaith o reoli'r risg o niwed yn effeithiol?

e) A gynhelir ymweliadau cartref lle bo angen i gefnogi'r gwaith o reoli'r risg o niwed yn effeithiol?

## PC 2.4 Adolygu

**Mae'r gwaith o adolygu cynnydd yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y sawl sydd ar brawf.**

### *PC 2.4.1 A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi cydymffurfedd ac ymgysylltiad y sawl sydd ar brawf?*

a) A yw'r gwaith adolygu'n ystyried lefelau cydymffurfio ac ymgysylltu, ac unrhyw rwystrau perthnasol, gyda'r addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r cynllun gwaith parhaus?

b) A yw'r sawl sydd ar brawf yn cymryd rhan ystyrlon yn y gwaith o adolygu ei gynnydd a'i ymgysylltu?

c) A yw adolygiadau ysgrifenedig yn cael eu cwblhau pan fo'n briodol fel cofnod ffurfiol o gamau gweithredu i weithredu'r ddedfryd?

### *PC 2.4.2 A yw'r gwaith adolygu yn canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad?*

a) A yw'r gwaith adolygu'n nodi ac yn mynd i'r afael â newidiadau mewn ffactorau cysylltiedig ag ymddygiad troseddol, gyda'r addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r cynllun gwaith parhaus?

b) A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar adeiladu ar gryfderau a gwella ffactorau amddiffynnol y sawl sydd ar brawf?

c) A yw'r gwaith adolygu'n cael ei oleuo gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda'r sawl sydd ar brawf?

d) A yw adolygiadau ysgrifenedig yn cael eu cwblhau fel sy'n briodol fel cofnod ffurfiol o gynnydd tuag at ymatal?

### *PC 2.4.3 A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?*

a) A yw'r gwaith adolygu'n nodi ac yn mynd i'r afael â newidiadau mewn ffactorau cysylltiedig â'r risg o niwed, gyda'r addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r cynllun gwaith parhaus?

b) A yw'r gwaith adolygu'n cael ei oleuo gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â rheoli'r risg o niwed?

c) A yw'r sawl sydd ar brawf (a, lle bo hynny'n briodol, a yw unigolion allweddol yn ei fywyd) yn ymwneud yn ystyrlon ag adolygu'r risg o niwed?

d) A yw adolygiadau ysgrifenedig yn cael eu cwblhau fel y bo'n briodol fel cofnod ffurfiol o reoli'r risg o niwed?

## Safonau wedi'u haddasu ('PA')

| **PA 2.1 Asesu** |
| --- |
| **Mae'r gwaith asesu yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y sawl sydd ar brawf.** |

***PA 2.1.1* A yw'r gwaith asesu yn canolbwyntio'n ddigonol ar ymgysylltu â'r sawl sydd ar brawf?**

a) A yw'r gwaith asesu yn ystyried y ffordd orau o ymgysylltu â'r unigolyn er mwyn cynllunio ar gyfer dod â chyswllt i ben a chydymffurfio yn ystod y cyfnod atal dros dro?

b) A yw'r gwaith asesu yn ystyried ffactorau amrywiaeth a rhwystrau posibl i gynllunio ar gyfer dod â chyswllt i ben a chydymffurfio yn ystod y cyfnod atal dros dro?

c) A yw'r sawl sydd ar brawf yn cymryd rhan ystyrlon yn y gwaith asesu, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried?

***PA 2.1.2 A yw'r gwaith asesu yn canolbwyntio'n ddigonol ar y ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu ac ymatal rhag troseddu?***

a) A yw'r gwaith asesu yn nodi'r ffactorau allweddol sy'n galw am gymorth/ymgysylltu parhaus gan wasanaethau lleol?

b) A yw'r gwaith asesu yn nodi cryfderau a ffactorau amddiffynnol y sawl sydd ar brawf?

c) A yw'r gwaith asesu yn defnyddio digon ar y ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael?

***PA 2.1.3 A yw'r gwaith asesu yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?***

a) A yw'r gwaith asesu yn nodi ac yn dadansoddi'n glir unrhyw risg o niwed i eraill?

b) A yw'r gwaith asesu yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys ymddygiad ac euogfarnau blaenorol, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol?

b) A yw'r gwaith asesu yn dadansoddi unrhyw risgiau a phryderon penodol sy'n gysylltiedig â dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl?

| **PA 2.2 Cynllunio** |
| --- |
| **Mae'r gwaith cynllunio'n seiliedig ar wybodaeth, yn gyfannol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y sawl sydd ar brawf.** |

***PA 2.2.1 A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar ymgysylltu â'r sawl sydd ar brawf?***

a) A yw'r sawl sydd ar brawf yn cymryd rhan ystyrlon yn y gwaith cynllunio, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried?

b) A yw'r gwaith cynllunio'n ystyried ffactorau amrywiaeth ac yn cynllunio ar gyfer rhwystrau posibl i ail-ymgysylltu ar ôl y cyfnod atal dros dro?

c) A yw'r gwaith cynllunio’n ystyried cymhelliant ac yn cynllunio ar gyfer rhwystrau posibl i ail-ymgysylltu ar ôl y cyfnod atal dros dro?

***PA 2.2.2 A yw’r gwaith cynllunio’n canolbwyntio’n ddigonol ar leihau aildroseddu a chefnogi ymataliad?***

a) A yw’r gwaith cynllunio’n adlewyrchu ffactorau sy’n gysylltiedig â throseddu yn ddigonol ac yn blaenoriaethu’r rhai sydd fwyaf hanfodol?

b) A yw’r gwaith cynllunio’n adeiladu ar gryfderau a ffactorau amddiffynnol yr unigolyn, gan ddefnyddio ffynonellau cymorth posibl?

c) A yw’r gwaith cynllunio’n nodi’r gwasanaethau sydd fwyaf tebygol o leihau aildroseddu a chefnogi ymataliad?

***PA 2.2.3 A yw’r gwaith cynllunio’n canolbwyntio’n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?***

a) A yw’r gwaith cynllunio’n mynd i'r afael â ffactorau risg o niwed yn ddigonol ac yn blaenoriaethu’r rhai sydd fwyaf hanfodol?

b) A yw’r gwaith cynllunio’n nodi’r ymyriadau adeiladol a/neu gyfyngol angenrheidiol i reoli’r risg o niwed?

c) A yw’r gwaith cynllunio’n gwneud cysylltiadau priodol â gwaith asiantaethau eraill sy’n ymwneud â’r sawl sydd ar brawf ac unrhyw gynlluniau aml-asiantaeth?

d) A yw’r gwaith cynllunio’n nodi’r trefniadau wrth gefn angenrheidiol ac effeithiol i reoli’r risgiau hynny sydd wedi’u nodi?

| **PA 2.3 Gweithredu a darparu** |
| --- |
| **Mae gwasanaethau cydlynol, personol ac o ansawdd uchel a gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â’r person sydd ar brawf.** |

***PA 2.3.1 A yw’r ddedfryd neu’r cyfnod ar ôl carchar yn cael ei weithredu’n effeithiol gan ganolbwyntio ar ymgysylltu â’r sawl sydd ar brawf?***

a) A yw’r person sydd ar brawf yn cael digon o wybodaeth am ofynion y cyfnod atal dros dro?

b) A oes digon o ffocws, gan gynnwys ffactorau amrywiaeth, yn cael ei roi i ymgysylltu er mwyn nodi cymorth priodol yn ystod y cyfnod atal dros dro?

c) A oes digon o wasanaethau wedi’u nodi i ddarparu cymorth priodol yn ystod y cyfnod atal dros dro?

***PA 2.3.2 A yw’r gwaith o weithredu a darparu gwasanaethau'n cefnogi ymataliad yn effeithiol?***

a) Ai'r gwasanaethau arfaethedig sydd fwyaf tebygol o leihau troseddu a chefnogi ymataliad?

b) A yw’r gwasanaethau arfaethedig yn datblygu cryfderau’r unigolyn ac yn gwella ffactorau amddiffynnol?

c) A yw gwasanaethau’n cael eu defnyddio i ddarparu cymorth a chynnal ymataliad yn ystod y cyfnod atal dros dro?

***PA 2.3.3 A yw'r gwaith o weithredu a darparu gwasanaethau'n cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?***

a) A roddir digon o sylw i amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl?

b) A yw cyfranogiad asiantaethau eraill o ran rheoli a lleihau'r risg o niwed wedi'i gyd-drefnu'n ddigonol?

c) A oedd gwaith cyd-drefnu amlasiantaethol effeithiol wedi'i gynnal mewn perthynas â diogelu plant?

d) A oedd gwaith cyd-drefnu amlasiantaethol effeithiol wedi'i gynnal mewn perthynas â cham-drin domestig?

| **PA 2.4 Adolygu** |
| --- |
| **Mae'r gwaith o adolygu cynnydd yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y sawl sydd ar brawf.** |

***PA 2.4.1 A yw'r gwaith adolygu yn canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi cydymffurfedd ac ymgysylltiad y sawl sydd ar brawf?***

a) A wneir digon o ymdrech i ail-ymgysylltu â'r person sydd ar brawf yn dilyn newidiadau mewn amgylchiadau?

b) A yw'r person sydd ar brawf yn cael digon o wybodaeth am unrhyw newidiadau mewn perthynas â'i drefniadau goruchwylio neu gyswllt?

c) A yw'r cyswllt yn ail-ddechrau pan fo angen?

***PA 2.4.2 A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad?***

a) A yw'r gwaith adolygu'n nodi ac yn mynd i'r afael â newidiadau mewn ffactorau cysylltiedig ag ymddygiad troseddol, gyda'r addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r cynllun gwaith parhaus?

b) A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar adeiladu ar gryfderau a gwella ffactorau amddiffynnol y sawl sydd ar brawf?

c) A yw'r gwaith adolygu'n cael ei oleuo gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda'r sawl sydd ar brawf?

***PA 2.4.3 A yw'r gwaith adolygu yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?***

a) A yw'r gwaith adolygu'n nodi ac yn mynd i'r afael â newidiadau mewn ffactorau cysylltiedig â'r risg o niwed, gyda'r addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r cynllun gwaith parhaus?

b) A yw'r gwaith adolygu'n cael ei oleuo gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â rheoli'r risg o niwed?

DIM OND mewn achosion lle bu cynnydd i risg uchel iawn o Niwed Difrifol (ROSH), cofrestriad ar gyfer Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA), cofrestriad newydd ar gyfer amddiffyn plant neu ddyraniad gan yr Is-adran Diogelwch Gwladol (NSD) y byddwn yn gofyn y cwestiynau ychwanegol hyn:

c) A gymerwyd camau priodol i alw'n ôl lle na ellir rheoli'r risgiau yn y gymuned mwyach?

d) A oes adolygiad digonol wedi'i gynnal o'r gwaith asesu a'r gwaith cynllunio?

e) A yw'r rheolwyr wedi cael eu goruchwylio'n ddigonol?